Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 02.04.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol :Mr Danny Davies, Arwel Nicholas, Dylan Jones, Elfed Davies, Carolyn Smethurst, Cynghorydd Sîr, Irfon Jones, Malcolm Howells, Mali Lloyd.
Ymddiheuridau : Wyn Thomas

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Cafwyd yn gywir; cynnigiwyd gan Arwel Nicholas, eiliwyd gan Elfed Davies	
Materion yn Codi	Danfonwyd llythyr at Aled Davies, ymgeisydd adeiladu ar Dir Pennant. Cyfleusterau Cyhoeddus: dywedwyd gan Cyng. Irfon Jones na fyddai'r Cyfleusterau yn cau ar fyrder. Gofynnwyd a fydde'r Cyngor yn fodlon trafod opsiynau arall megis; lleihau oriau'r Gofalydd, cadw 2 dy bach ar agor yn unig? Nid yw y Cyngor Sir wedi cadw at y cytundeb gwreiddiol o adael allwedd I'r Cyfleusterau gyda Cyngor Llanpumsaint. Pe bai'r Toiledau yn cau, a fydde Llanpumsaint yn cael cadw'r allwedd? <u>Barn y Cynghorwyr ar gymeryd cyfrifoldeb y Cyfleusterau:</u> Fe allai'r cyfrifoldeb fod yn bwll ariannol di-waelod. Llawer yn y Gymuned ddim yn elwa wrthynt, paham talu mwy o braesept I dalu am wasanaeth nad yw yn elwa'r gymuned gyfan? Fe fydd y Cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol; cyfle I'r Gymuned I wrando ar y drafodaeth. Malcolm Howells yn atgoffa'r Cyngor nad oes gan aelodau o'r Gymuned hawl I siarad; gwrando yn unig. Awgrymwyd trefnu Cyfarfod Anghyffredin I drafod mabwysiadu'r Tai Bach, fydde yn rhoi cyfle I'r Gymuned lleisio barn ar ddyfodol y Cyfleusterau. Angen creu rhestr o'r costau ymlaenllaw. Gor-yrru. Cysylltu gyda John McEvoy. Beth oedd canlyniadau y blychau cofrestru cyflymdra ceir? Heb gael ateb am y mynedfaon anghyfreithlon. Black Rock – angen cysylltu gyda Clerc Cyngor Conwil I drafod y mater	
Gohebiaeth	Aelodaeth Un Llais Cymru- cytunwyd ymaleodi ar y pris llai er mwyn cael profiad o'r Mudiad. Cynnigiwyd gan Carolyn Smethurst, eiliwyd gan Arwel Nicholas	

	Cyfrannu tuag at Eisteddfod Llanelli 2014 – I'w drafod ym Mis Medi. Cais gan fusnes lleol I lanhau'r Safleoedd Bws, mae gan y Gymuned 4. Irfon Jones I ymchwilio I'r drefn presennol.	
Materion Ariannol	Cytunwyd talu'r Cyfieithydd, Delyth Charles £20.00 Cytunwyd ar gyflog 6 mis y Clerc:£863.36	
UFA	Materion a godwyd gan Malcolm Howells: Yr heol gerllaw Bryncene, ar Rhiw Graig – y clawdd yn syrthio oddiwrth yr heol gan greu twll. Sbwriel – yn amlwg ar ymyl ffordd Rhiw Graig. Nid oes llinell wen ar ben heol yr Esgair mwyach, lle mae'r lôn yn ymuno â heol Bwlch y Rhyd. Llanfihangel.- son am uno' Tro Ty Nant yr un mor beryglus. Materion a godwyd gan Carolyn Smethurst: Fferm Wynt Brechfa – arian I rannu rhwng Cymunedau. Mae yna Holiadur yn y Siop; angen I bawb I'w lenwi, ac mi fydd yna Gyfarfodydd Cyhoeddus. Carolyn Smethurst yn bwriadu mynychu. £560,000 I'w rhannu rhwng Cymunedau. Allai mwy o incwm I'r Gymuned alluogi'r Gymuned i wneud rhagor o waith cynnal a chadw Cyfarfod Blynyddol fydd y Cyfarfod nesaf; Cyfarfod Cyhoeddus I ddilyn rhywbryd. Gwaith cyweirio'r heol yn Nebo heb ei wneud eto Angen gwneud gwaith ar frys ar heol y Graig Drewdod wrth ymyl y Neuadd; angen cysylltu gyda Dŵr Cymru	

Cafwyd yn gywir : …….. (Cadeirydd)

Dyddiad : ……..

Cafwyd yn gywir : …….. (Ysgriennydd)

Dyddiad: ……